

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government
Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2014

Annwyl Gyfeillion,

Biliau mewn perthynas â llywodraeth leol a rhentu cartrefi

Yn natganiad y Prif Weinidog ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 15 Gorffennaf 2014, nododd ei fwriad i gyflwyno Biliau mewn perthynas â llywodraeth leol a rhentu cartrefi.

Yn amodol ar gyflwyno'r Biliau yn ôl y bwriad, ac yna'r Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') i'w ystyried yng Nghyfnod 1, byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Biliau. Rwy'n cymryd y cyfle hwn i roi rhybudd ymlaen llaw am ein bwriadau i chi, oherwydd mae'n debygol y byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Biliau hyn yn nhymor y gwanwyn.

Cyhoeddir manylion am y biliau ar wefan y Pwyllgor unwaith y byddant wedi cael eu cyflwyno.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am daith Biliau drwy'r Cynulliad yma:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm>

Gobeithio bod yr hysbysiad hwn o gymorth. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi neu â Chlerc y Pwyllgor: Sarah Beasley – 0300 200 6338 / seneddCCLIL@cynulliad.cymru

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Christine Chapman". The signature is written in a cursive, flowing style.

Christine Chapman AC

Cadeirydd